

CANLLAWIAU GWEITHREDU SWM CYMUDOL – NODYN CYNGOR

1. BETH YW'R CYNLLUN TALIAD SWM CYMUDOL GWAGLE AGORED?

Sefydlwyd y Cynllun Swm Cymudol Gwagle Agored yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Rhif 4, 'Gofynion Gwagle Agored mewn Datblygiadau Newydd'. Mae'r dogfennau hyn yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwagle agored ar gyfer hamdden ar y safle lle bo datblygiad yn cynnwys 10 neu ragor o unedau preswyl, yn unol â'r safon a fabwysiadwyd o 3.2 hectar (8 erw) i bob 1000 o boblogaeth. Lle nad yw'n ddichonadwy nac yn briodol i ddarparu'r gwagle agored sy'n ofynnol ar y safle yna gall y Cyngor dderbyn swm cymudol a darparu'r ddarpariaeth sy'n ofynnol a chynnal a chadw hwnnw ar safle arall. Serch hynny, darpariaeth ar y safle sydd fwyaf dymunol. Gellir gwneud taliadau swm cymudol un ai drwy daliad gwirfoddol gan yr ymgeisydd, neu drwy Gytundeb Adran 106 sy'n golygu rhwymedigaeth gyfreithiol.

Mae gwagle agored yn cael ei rannu'n ddau gategori eang:

- 1 – Gwagle Agored Hamdden Cymunedol h.y. lleiniau ffurfiol, parciau ac ati
- 2 – Lle chwarae i blant h.y. meysydd chwaraed ag offer ac anffurfiol mewn datblygiadau tai.

Cyfrifir y cyllid ar gyfer pob math o wagle agored yn unigol a chesglir yr arian yn unol â hynny.

Ceir diffiniad manylach o wagle agored a'r mathau o gyfleusterau a fyddai'n cael eu hystyried yn gymwys i'w cyllido isod.

Lle casglwyd symiau cymudol mae'r rhain yn cael eu cadw mewn cyfrifon wedi eu seilio ar ardaloedd cynghorau tref a chymuned. Rhaid i'r arian a gasglwyd gael ei wario yn yr un ardal cyngor tref neu gymuned â'r datblygiad a ysgogodd y galw ychwanegol am wagle hamdden. Dan amgylchiadau eithriadol h.y. ar gyfer darparu cyfleusterau chwaraeon newydd ar raddfa fawr yna gellid cyfuno arian o ardaloedd cynghorau tref neu gymuned cyfagos i ddarparu'r math yma o gyfleuster sy'n gwasanaethu dalgylch ehangach.

2. PWY SY'N CAEL GWNEUD CAIS AM Y CYLLID?

- Cynghorau Tref a Chymuned
- Grwpiau/Mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol
- Partneriaethau sector cyhoeddus/preifat
- Cyngor Sir Ddinbych

3. PA FATH O BROSIECTAU FYDD YN GYMWYS I DDERBYN CYLLID?

Gellir defnyddio'r cyllid i greu gwagle agored hamdden newydd neu i wella'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes, a thrwy hynny gynyddu'r defnydd a wneir o'r ddarpariaeth. Mae gwelliannau dilys i ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes yn cynnwys:

- gwelliannau i wneud y safle/cyfleuster yn fwy hygyrch;
- uwchraddio'r cyfleusterau er mwyn iddynt gyrraedd safonau modern;
- gwaith i ddwysáu defnydd y cyfleuster (h.y. arwyneb bob tywydd);
- gwaith draenio neu gwaith arwyneb i ymestyn defnydd y cyfleuster;
- gwaith ffensio neu oleuo i wneud y cyfleuster yn fwy diogel;
- darparu cyfleusterau newid i gynyddu'r defnydd o'r safle;
- maes parcio, neu wasanaethau hanfodol eraill – eto i gynyddu ac ymestyn y defnydd.

Gellir gwneud taliadau ar gyfer prynu tir ar gyfer darpariaeth newydd neu estyniadau i ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.

DS Ni roir arian ar gyfer-

- cynnal a chadw arferol gwagle agored sy'n bodoli eisoes
- darparu cyfleusterau chwaraeon dan do
- clybiau proffesiynol

4. SUT FYDD CEISIADAU'N CAEL EU HASESU?

Bydd dangos cefnogaeth y gymuned a thrigolion lleol i'r prosiect yn ffactor a ystyrir wrth wneud penderfyniad.

Meini Prawf Asesu

Noder – nid yw'n ofynnol i gynlluniau fodloni pob un o'r meini prawf isod – ond y mwyaf o feini prawf mae'n eu bodloni y mwyaf ffafriol y bydd yn cael ei ystyried.

- Wedi'i leoli yn ardal y cyngor tref neu gymuned lle adeiladwyd y datblygiad newydd
- Os nad yw yn ardal y cyngor tref neu gymuned perthnasol rhaid fod o fewn pellter hygyrch – pellter cerdded hawdd
- Rhan o strategaeth gyffredinol i wella gwagle agored hamdden cymunedol
- Wedi'i nodi fel cynllun blaenoriaeth yn Arolwg Gwagle Agored Sir Ddinbych ac unrhyw Gynlluniau Gweithredu cytunedig yn deillio o'r arolwg
- Yn diwallu angen neu ddiffyg cydnabyddedig yn y gymdogaeth – un ai drwy ddarparu cyfleuster newydd neu'n ymestyn un sy'n bodoli eisoes. Defnyddir safonau y Gymdeithas Caeau Chwarae Cenedlaethol (NPFA) neu safonau cytunedig tebyg i asesu hyn

- Yn cynyddu'r defnydd yn sylweddol neu'n cynyddu'r cyfnod amser y gellir defnyddio'r cyfleuster
- Yn ymestyn neu'n ehangu'r defnydd presennol i ddarparu defnyddiau ychwanegol
- Yn darparu neu'n ymestyn defnyddio'r cyfleuster drwy gydol y flwyddyn
- Yn darparu defnydd i bob oedran, rhyw, camp a sector yn y gymuned leol – gan gynyddu cynhwysiant cymdeithasol / hygyrchedd i bobl anabl
- Yn darparu gwerth am arian – ni fydd cyfleuster drud â defnydd neu apêl cyfyng yn sgorio'n dda
- Yn denu arian ychwanegol sylweddol o ffynonellau eraill
- Enghraifft dda o bartneriaeth sector cyhoeddus/preifat er budd y gymuned leol
- Yn ennyn cefnogaeth sylweddol gan y gymuned leol a bydd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan bobl y gymuned
- Yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol yn fwyaf dymunol, ac am ddim neu am bris isel iawn lle bynnag y bo'n bosibl

Bydd y ceisiadau'n cael eu gosod mewn trefn a rhyddheir y cyllid mor fuan ag y bo modd.

Ystyrir y cesiadau mewn ymgynghoriad â swyddogion y Cyngor Sir, yr Aelod(au) Lleol a'r cyngor tref neu gymuned perthnasol.

Penderfyniad

- **Ni wneir unrhyw benderfyniad heb ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol a'r Aelod(au) lleol yn gyntaf.**
- **Nid oes hawl i apelio, ond gellir cyflwyno sylwadau i'r Cyngor cyn dyrannu'r arian.**

Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor, wrth ymgeisio am gymeradwyaeth fanwl dylai ymgeiswyr ddarparu lleiafswm o dri dyfynbris cystadleuol gan gontractwyr/cyflenwyr addas i sicrhau gwerth am arian. Dylai pob cais gynnwys manylion llawn am gostau'r prosiect, yn cynnwys y trefniadau cynnal a chadw yn y dyfodol a chynllun wrth raddfa o'r safle yn dangos y cynllun arfaethedig. Dylid nodi ffynonellau cyllid eraill hefyd.

Lle bo angen caniatâd cynllunio neu unrhyw ganiatâd statudol arall rhaid sicrhau cael y rhain cyn cyflwyno'r cais manwl.

Dylid cyflwyno llythyrau cefnogol gan grwpiau trigolion a grwpiau cymunedol lleol hefyd, os oes rhai, i gefnogi'r cais.

Cwblhau cynlluniau

Bydd terfyn amser ar ddyfarniadau cyllid. Rhaid cwblhau'r cynllun cyn pen 24 mis i dderbyn cymeradwyaeth fanwl. Neu bydd y dyfarniad yn mynd yn annyls a bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgyflwyno cais.

Rhaid cwblhau cynlluniau yn foddhaol cyn rhyddhau'r cyllid.

Yn arferol gwneir taliadau yn unig pan yw'r gwaith wedi'i gwblhau mewn modd sy'n bodloni'r Cyngor. Dim ond lle dangoswyd yr angen yn glir y rhoir taliadau fesul cam.

5. SUT FYDD Y TALIADAU'N CAEL EU RHEOLI?

Cyfrifoldeb Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych fydd rheolaeth ariannol a gweinyddol y gronfa. Cedwir yr arian mewn cyfrif ar wahân sy'n ennill llog a bydd wedi ei neilltuo ar gyfer darpariaeth gwagle agored yn unig.

Bydd ymgeiswyr yn derbyn cyllid gan y Cyngor pan gyflwynir ffurflen hawlio'r arian ynghyd ag anfonebau a derbynebau am wariant cymwys cytunedig a bydd yn ofynnol sicrhau cadw'r holl gofnodion yn ystod ac ar ôl cwblhau'r prosiect at ddibenion archwiliad. Bydd cyllid cytunedig am wariant ar weithgareddau/costau cymwys yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r sefydliad neu'r mudiad a gyflwynodd y cais.

DIFFINIADAU

DIFFINIAD GWAGLE AGORED

“Gwagle sy'n hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, o faint a natur addas ar gyfer chwaraeon, hamdden egnïol neu chwarae plant¹.”

DARPARIAETH CHWARAEON FFURFIOL

- Cyfleusterau fel meysydd, lleiniau, griniau, cyrtiau, traciau athletau a safleoedd amrywiol fel lawntiau *croquet* ac ardaloedd ymarfer sy'n eiddo i awdurdodau lleol.
- Cyfleusterau fel y rhai a ddisgrifir uchod yn y sector addysg ac sydd ar gael, fel mater o arfer ac o bolisi, at ddefnydd y cyhoedd.
- Cyfleusterau fel y rhai a ddisgrifir uchod sydd yn y sector gwirfoddol, preifat neu fasnachol, ac sy'n gwasanaethu'r angen am weithgareddau hamdden awyr agored eu haelodau neu'r cyhoedd.

DARPARIAETH ANFFURFIOL

- Lle chwarae hamddenol neu anffurfiol mewn parciau, plotiau garddio.

DARPARIAETH I BLANT

- Ardaloedd ag offer ac ardaloedd anffurfiol at ddefnydd plant.

¹National Playing Fields Association, Six Acre Standard, 2001

SAFON CYNGOR SIR DDINBYCH

Mae'r sir wedi mabwysiadu'r safon **isafswm** a ganlyn ar gyfer gwagle agored, sef **3.2 hectar am bob 1000 o boblogaeth** (32 metr sgwâr am bob unigolyn). Mae'r safon hwn wedi ei rannu ymhellach:

Gwagle Agored Hamdden Cymunedol (e.e. caeau peldroed, griniau, parciau)	2.4 hectar/1000 o boblogaeth 24 m ² /person		
1. Cyfleusterau chwaraeon ffurfiol hectar/1000 o boblogaeth	1.6	-	1.8
2. Gwagle anffurfiol h.y. parciau hectar/1000 o boblogaeth	0.6	-	0.8

Gwagle Agored i blant **0.8 hectar/1000 o boblogaeth**
(e.g. meysydd chwarae, gwagle anffurfiol mewn ystad o dai) 8 m²/person

MANNAU A EITHRIR O'R DIFFINIAD

- cyfleusterau chwaraeon awyr agored nad ydynt ar gael i'r cyhoedd yn arferol fel mater o arfer neu bolisi h.y. stadiwm chwaraeon proffesiynol (h.y. cae peldroed y Rhyl)
- cyfleusterau'r lluoedd arfog
- gwrychoedd, coetiroedd, tiroedd comin, glan y môr, ardaloedd cadwraeth natur, gerddi addurniadol a pharciau ffurfiol ac eithrio ardaloedd wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer chwaraeon, gemau, ymarfer a chwarae
- yr holl gyfleusterau golff
- dŵr a ddefnyddir at ddibenion hamdden, ac eithrio lle mae'n ffurfio nodwedd rhyngweithiol mewn maes chwarae awyr agored
- cyfleusterau/neuaddau chwaraeon dan do
- safleoedd adloniant masnachol (h.y. gwerysllfeydd gwyliau)
- meysydd parcio at ddefnydd nad yw'n ddefnydd hamdden.